

Cyngor Cymuned Bodedern.

Rheolau Sefydlog

Cyfarfodydd:- Y Gymraeg yw Iaith Swyddogol pob cyfarfod.

Cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern am 7.00 o'r gloch ar y bedwaredd Llun o bob mis (yn eithrio mis Awst a Rhagfyr) Os bydd y dydd hwn yn syrthio ar wyl y banc, mae gan yr aelodau hawl i ddewis dyddiad arall yn y cyfarfod blaenorol.

1. Cyfarfod Blynyddol y Cyngor

1.1 Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol

(a) mewn blwyddyn etholiad, rhwng 4 a 18 o ddiwrnodau ar ol dyddiad yr etholiad

(b) mewn blwyddyn pan nad oes etholiad, ym mis Mai.

2. Y Cadeirydd

2.1 Llywydd y cyfarfod fydd y Cadeirydd etholedig, neu'r is-gadeirydd. Yn absenoldeb y ddau ohonyn nhw bydd angen penodi cadeirydd am y noson o blith yr aelodau sydd yn bresennol.

3. Y Swyddog Priodol

3.1 Swyddog Priodol y Cyngor yw'r Clerc. Mae'r Clerc i'w b/phenodi gan y Cyngor ac mae ei d/dyletswyddau'n cynnwys:-

3.2 Derbyn datganiadau derbyn swydd oddi wrth y cynghorwyr.

3.3 Derbyn a chofnodi hysbysiadau ariannol.

3.4 Derbyn a chadw cynlluniau a dogfennau eraill.

3.5 Cyhoeddi hysbysiadau a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.

3.6 Derbyn copïau o ddeddfau oddi wrth Awdurdodau Llywodraethol.

3.7 Llofnodi cyhoeddiadau i fynychu cyfarfodydd.

3.8 Unrhyw ddyletswyddau ychwanegol, gyda chaniatâd y Cyngor.

4. Cworwm

4.1 Mae angen pedwar aelod o'r Cyngor i ffurfio cworwm.

4.2 Os ydi llai na pedwar o'r rhai sy'n bresennol yn gymwys i bleidleisio ar fater penodol (e.e. yn sgil datganiadau o ddiddordeb) gall y Cadeirydd ohirio trafod y mater dan sylw tan gyfarfod arall.

5. Pleidleisio

5.1. Bydd yr aelodau'n pleidleisio drwy godi llaw os mai dyna yw dymuniad dau aelod.

5.2 Gall aelod, os dymuna, ofyn i'r clerwr gofnodi enwau'r aelodau a bleidleisiodd o blaid neu yn erbyn unrhyw gynneg a drafodwyd.

5.3 Bydd gan y Cadeirydd ddwy bleidlais, un ar gyfer y bleidlais gyntaf ac un pleidlais fwrw.

5.4 Os nad yw llywydd y Cyfarfod Blyneddol yn Gynghorydd, ond yn llywyddu'r cyfarfod hyd nes y dewisir Cadeirydd, nid oes ganddo fo neu hi bleidlais yn y bleidlais gyntaf i ddewis Cadeirydd.

5.5 Os, wrth ddewis Cadeirydd, y ceir pleidlais gyfartal bydd y Llywydd yn defnyddio pleidlais fwrw i benderfynu'r mater.

6. Trefn Busnes

6.1 Ethol Cadeirydd (hwn fydd y mater cyntaf ym mhob Cyfarfod Blynyddol).

6.2 Derbyn datganiad oddi wrth y Cadeirydd yn dangos ei fod yn derbyn y swydd.

6.3 Ethol is gadeirydd.

6.4 Ym mhob cyfarfod arall (ac eithrio'r Cyfarfod Blynyddol), os yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ill dau'n absennol, y mater cyntaf i'w drafod fydd penodi aelod i fod yn Gadeirydd ar y cyfarfod.

6.5 Trefnu hysbysebu ar gyfer, a derbyn, amcanbrisiau am waith sydd i'w wneud ar ran y Cyngor gan gontractwyr (i ddigwydd bob yn ail flwyddyn).

6.6 Penderfynu ar drefn delio â'r materion sydd i'w trafod.

6.7 Cytuno bod y cofnodion wedi eu darllen gan yr aelodau i gyd.

6.8 Y Cadeirydd i lofnodi'r cofnodion er mwyn cadarnhau eu bod yn gywir.

6.9 Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion neu faterion na lwyddwyd i'w datrus yn y cyfarfod blaenorol.

6.10 Derbyn a thrafod materion cynllunio.

6.11 Derbyn a thrafod gohebiaeth neu gyfathrebiadau eraill a gyflwynwyd i'r Cyngor.

6.12 Ateb unrhyw gwestiynau.

6.13 Derbyn a thrafod adroddiadau oddi wrth aelodau neu swyddogion y Cyngor.

6.14 Awdurdodi taliadau.

6.15 Trafod unrhyw fater arall sydd ar ol ar yr agenda.

6.16 Mae hawl gan y Cadeirydd neu unrhyw aelod arall o'r Cyngor gyflwyno cynnig i newid trefn eitemau'r agenda ar sail angen brys. Os daw'r cynnig oddi wrth y Cadeirydd fe gaiff bleidleisio ar y cynnig heb fod angen eilio ei hawl i bleidleisio na chynnal trafodaeth bellach.

7. Cynigion dirybudd

Mae hi'n dderbyniol cyflwyno cynigion yn ymwneud â'r materion canlynol heb roi rhybydd o flaen llaw:

7.1 Dewis Cadeirydd i'r cyfarfod.

7.2 Cywiro'r cofnodion.

7.3 Cadarnhau'r cofnodion.

7.4 Newid trefn trafod y materion sydd ar yr agenda.

7.5 Symud ymlaen at y mater nesaf.

7.6 Cau'r drafodaeth ar bwnc.

7.7 Creu pwyllgor neu is-bwyllgor a phenodi aelodau ar eu cyfer.

7.8 Derbyn adroddiadau.

7.9 Cynnig gwelliannau ar gynigion.

7.10 Tynnu cynigion yn eu hol.

7.11 Gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.

7.12 Tawelu neu wahardd aelod o'r cyfarfod sydd wedi ei enwi am gamymddwyn.

7.13 Gwahodd aelod sydd wedi datgan diddordeb i aros yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater dan sylw.

7.14 Rhoi caniatâd i'r Cyngor weithredu pan fydd y Rheolau Sefydlog yn gofyn am ganiatâd o'r fath.

7.15 Dirymu unrhyw Reol Sefydlog.

8. Cywiro Cofnodion

8.1. Ni chaniateir trafodaeth ynghylch y cofnodion ar unrhyw fater heblaw eu cywirdeb.

8.2 Rhaid i bob cywiriad i'r cofnodion fod wedi ei gyflwyno ar ffurf cynnig a'i

gymeradwyo gan y cyfarfod.

8.3 Rhaid i'r Cadeirydd lofnodi pob un cywiriad.

9. Camymddwyn

9.1 Mae'n rhaid i bob aelod ufuddhau i benderfyniadau'r Cadeirydd, beidio ag amharu ar drafodaeth nac ymddwyn mewn modd a fyddai'n dwyn gwarth ar y Cyngor.

9.2 Os, ym marn y Cadeirydd, y mae aelod wedi anufuddhau i'r rheol uchod (9.1), fe all ofyn i'r aelod hwnnw dewi neu fynd o'r cyfarfod, a hynny'n ddioed ac heb unrhyw drafodaeth pellach (mae'n rhaid wrth eilydd i'r gorchymyn cyn gweithredu).

9.3 Os yw'r cynghorydd yn gwrthod ufuddhau i reolau 9.1 a 9.2 uchod, fe all y Cadeirydd ddod â'r cyfarfod i ben.

10. Pleidleisio ynghylch swyddi gweigion

Lle bydd mwy na dau wedi cynnig ar gyfer swydd wag, a dim mwyafrif o blaid un, bydd enw'r ymgeisydd gyda'r lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ymgeiswyr. Yna cynhelir pleidlais arall. Mae'r camau hyn i'w hailadrodd nes bod un ymgeisydd yn derbyn mwyafrif o'r pleidleisiau.

11. Trafodaethau sy'n effeithio ar un sy'n gweithio i'r Cyngor

Nid yw'r drafodaeth ar fater o'r math hwn i ddechrau nes bod penderfyniad wedi ei wneud, a'i weithredu, i wahardd y cyhoedd o'r Cyfarfod.

12. Taliadau

Rhaid awdurdodi pob taliad drwy gynnig mewn cyfarfod o'r Cyngor.

Rhaid cael dau aelod i lofnodi sieciau'r Cyngor

13.Diddordeb Ariannol

13.1 Os oes gan aelod ddiddordeb ariannol, uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn unrhyw gytundeb neu weithgaredd arall o eiddo'r Cyngor (yn ol diffiniad Cod Ymddygiad Aelodau Cyngor Cymuned Bodedern yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Llywodraeth leol 2000, ar y 14eg o Fai 2008), mae'n rhaid i'r aelod hwnnw fynd o'r Cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater hwnnw. Serch hynny, fe all yr aelod hwnnw aros yn y cyfarfod os:

13.2 Yw'r Cyngor yn ei wahodd i aros.

13.3 Os yw'r mater dan sylw yn rhan o adroddiad pwyllgor a ddim yn bwnc penodol y drafodaeth.

14. Buddion Ariannol ac Eraill

14.1 Mae hi'n ofynnol, dan Adran 81 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, i bob aelod o Awdurdod Lleol gyflwyno Hysbysiad o Fuddion Ariannol ac Eraill.

15. Canfasio

15.1 Ni all aelod o'r Cyngor ganfasio ar ran ymgeisydd ar gyfer unrhyw swydd neu gytundeb efo'r Cyngor. Bydd canfasio o'r fath yn arwain at wahardd yr ymgeisydd o'r proses ymgeisio.

16.Archwilio Dogfennau.

16.1 Mae hawl gan unrhyw aelod (yn rhinwedd ei swydd) archwilio unrhyw ddogfen o eiddo'r Cyngor a hawlio copi ohoni, os oes copïau ar gael.

16.2 Mae hawl gan unrhyw aelod o'r Cyngor archwilio holl gofnodion y

Cyngor a'i bwyllgorau.

17.Hawl y cyhoedd i fynychu cyfarfodydd.

17.1 Mae hawl gan y cyhoedd i fynychu pob cyfarfod o'r Cyngor, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau. Gellir gwahardd y cyhoedd dros dro o gyfarfod am y rheswm canlynol:

i: bod mater cyfrinachol i'w drafod.

ii: Os yw aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws trafodaeth mewn cyfarfod Cyngor neu bwyllgor, mae'r Cadeirydd i'w rybuddio y gall cael ei yrru o'r cyfarfod os yw'n parhau i dorri ar draws. Os yw'r aelod cyhoedd yn parhau i dorri ar draws, mae gan y Cadeirydd yr hawl i'w anfon o'r cyfarfod.

iii: Gellir neilltuo hyd at ugain munud o unrhyw gyfarfod ar gyfer gwrando ar ddatganiadau oddi wrth y cyhoedd. Bydd gan bob unigolyn hyd at dri munud i gyflwyno'r hyn sydd ganddo i'w ddweud. Dim ond materion y mae'r Clerc wedi ei hysbysu yn eu cylch o flaen llaw (o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod) y bydd y Cyngor neu bwyllgor yn cael gwrando arnyn nhw.

18.Materion Cyfrinachol

18.1.Ni chaniateir i unrhyw aelod o'r Cyngor neu bwyllgor ddatgelu gwybodaeth a ystyrir ei fod yn gyfrinachol gan y Cyngor, i berson nad yw'n aelod o'r Cyngor.

19. Tendro

19.1 Nid oes gorfodaeth ar y Cyngor na'i bwyllgorau i dderbyn y tendr rhataf.

19.2 Gellir hysbysu am dendrau yn y wasg leol, ar wefan y Cyngor ac yn siopau a swyddfeydd post yr ardal.

19.3 Bydd angen tendro o'r newydd bob dwy flynedd am waith parhaol megis

torri glaswellt y fynwent.

19.4 Os na dderbynnir tendr neu bod y tendrau a dderbynnir yr un fath yn union â'i gilydd mae'r Cyngor i wneud trefniadau priodol yn ol doethineb yr aelodau.

19.5 Gellir cynnig cytundeb ar un ddyfynbris yn unig os yw'r gwaith angenrheidiol yn waith brys a'r taliad ar ei gyfer yn fach (£150 neu lai). Fe ganiateir awdurdodi gwaith o'r fath gan y Clerc wedi iddo drafod y mater gyda Chadeirydd y Cyngor.

20. Cod Ymddygiad ynghylch Cwynion

20.1 Bydd Cyngor Cymuned Bodedern yn dilyn y camau sydd wedi eu nodi yn ei Bolisi Cwynion wrth ddelio â honiadau o gamweinyddu gan y Cyngor neu unrhyw un o'i aelodau.

21. Newid, dirymu neu ohirio Rheolau Sefydlog

21.1 Gellir gohirio unrhyw ran o'r Rheolau Sefydlog hyn ar unrhyw adeg, ynghylch unrhyw eitem o fusnes mewn cyfarfod Cyngor neu bwyllgor drwy gyflwyno cynnig i'r perwyl hwnnw.

21.2 Bydd unrhyw gynnig i newid, dirymu neu ohirio Rheol Sefydlog sydd ag eilydd iddo yn sefyll heb drafodaeth pellach nes y cynhelir Cyfarfod Blynnyddol nesaf y Cyngor.

22. Cyfieithu

i. Aelod (o'r Cyngor) sydd yn bresennol mewn Cyfarfod, sydd yn gallu darllen ysgrifennu a siarad Cymraeg i gyfieithu i Aelod (o'r Cyngor) sydd yn bresennol mewn Cyfarfod, sydd ddim yn gallu darllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg er mwyn fod pob Aelod (o'r Cyngor) yn medru deall beth sydd yn cael ei drafod

yn y Cyfarfod.

ii. Ni fydd Aelodau (o'r Cyngor) yn cyfieithu i aelodau'r cyhoedd mewn Cyfarfodydd; penderfynwyd fodd bynnag fod rhyddid i aelodau'r cyhoedd ddod a chyfieithydd neu offer cyfieithu gyda hwynt i gyfarfod os yn dymuno gwneud hynnu.

iii. Yn ystod eitem " Annerch gan y Cyhoedd" bydd gan aelodau'r cyhoedd yr hawl i annerch y cyfarfod yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Rhaid i Aelodau'r Cyngor annerch aelodau'r cyhoedd yn yr iaith a ddymunir gan yr aelod o'r Cyhoedd, sef Y Gymraeg neu'r Saesneg.

iv, Gyda 10 (deg) diwrnod gwaith o rybudd gall aelod o'r Cyhoedd wneud cais i Glerc Y Cyngor ddarparu Cyfieithydd ar gyfer y cyfarfod.

23. Dosbarthu'r Rheolau Sefydlog

Rhoddir copi o'r Rheolau Sefydlog i bob aelod o'r Cyngor wedi iddyn nhw dderbyn eu swyddi a llofnodi eu datganiadau derbyn swydd.